

Modwl: **Sgiliau Academaidd i fyfyrwyr**

Cod y modwl: **ECGE4002PC**

Elfen 1: **Portffolio o dasgau sy'n adlewyrchu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r nodweddion sydd eu hangen ar gyfer astudiaeth Addysg Uwch.**

Cyflwyniad

Bwriad y portffolio yw adnabod pa sgiliau, rhinweddau a gwybodaeth sy'n hanfodol ar gyfer astudiaethau Addysg Uwch. Byddaf yn edrych ar sut i ddatblygu sgiliau a bydden sicrhau llwyddiant fel athro dan hyfforddiant, fel edrych ar yr adnoddau sydd ar gael i fyfyrwyr, nodi archwiliad sgiliau cyfredol a mynegi fy marn ar lwyddiant. Hefyd edrychaf ar y sgil o feddwl yn feirniadol ac ysgrifennu'n academiaidd ar lefel uwch. Ymhellach mynegaf fy marn ar addysg yng Nghymru.

Tudalen cynnwys

Tasg	Teitle y dasg	Tudalen
1:	Map meddwl o'r holl adnoddau sydd ar gael fel myfyriwr prifysgol.	2
1:	Archwiliad Sgiliau.	3
1:	Sut beth fyddai llwyddiant i mi yn fy marn i?	3 a 4
2:	Datblygu Meddwl Beirniadol.	4
3:	'Fy marn i am Addysg yng Nghymru'	5 a 6

Tasg 1- Datblygu sgiliau: gweledigaeth o lwyddiant fel athro dan hyfforddiant

Map meddwl digidol- holl adnoddau sydd ar gael fel myfyriwr prifysgol



Archwiliad sgiliau

Sgiliau a rhinweddau cyfredol	
Pobl ☒ Y gallu i ddod ymlaen gyda phobl o gefndiroedd gwahanol ☒ Deall safbwyntiau pobl eraill ☒ Sensitifrwydd at wahaniaethau diwylliannol ☐ Ymdrin â phobl gyhoeddus ☒ Gwaith tîm a chydweithio ☒ Rhwydweithio ☐ Rheoli neu goruchwyllo gwaith eraill ☒ Addysgu, hyfforddi neu mentora eraill ☒ Trafod a pherswadio ☒ Helpu eraill i ddod i benderfyniadau	Gweithgareddau a thasgau ☒ Creadigrwydd, dylunio a chynllun ☐ Arloesi a dyfeisgarwch ☐ Y gallu i weld y 'darlun cyfan' ☐ Dadl a thrafodaeth ☒ Gweld patrymau a chysylltiadau ☒ Sylw i fanylion ☒ Chwilota am wybodaeth ☒ Dosbarthu a threfnu gwybodaeth ☐ Gwneud penderfyniadau ☒ Rheoli newid a thrawsnewid ☒ Gosod blaenoriaethau ☒ Datrys agendâu ☒ Trefnu gwaith i gwrdd â therfynau amser ☐ Hwyluso cyfarfodydd ☐ Darllen testunau cymhleth ☐ Llythrennedd digidiol
Personol ☒ Gosod fy nodau (goals) fy hunan ☒ Gweithio yn annibynnol ☒ Cynnal lefel uchel o gymhelliant ☒ Cymryd cyfrifoldeb dros fy nghamau gweithredu fy hun ☒ Dysgu o fy nghamgymeriadau ☐ Parodrwydd i gymryd risg ac arbrofi ☒ Penderfyniadau (assertiveness) ☒ Penderfynol a dyfalbarhad ☒ Ystyried teimladau eraill ☒ Gofalu am eraill ☒ Cefnogi a chymhell eraill ☒ Deall iaith gorff eraill ☒ Ymdopi â phobl 'anodd' ☒ Siarad yn eglur ac i'r pwynt ☐ Ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa ☒ Cymryd cyfeiriad gan eraill ☒ Rhoi adborth adeiladol ☒ Sgiliau arwain	☒ Sgiliau technolegol ☒ Defnyddio offer rhwydweithio cymdeithasol ☐ Gwerthu ☒ Datrys-problem ☒ Meddwl yn gyflym ☒ Sgiliau ymarferol ☒ Deall yn gyflym sut mae pethau'n gweithio ☐ Gweld cymwysiadau ymarferol ☒ Ysgrifennu adroddiadau neu lythyrau swyddogol ☒ Ieithoedd ☐ Menter ac entrepreneuriaeth ☒ Rheoli sefyllfaoedd anodd ac argyfyngau ☒ Hunanddibyniaeth (self-reliance) ☒ Cydnabod fy anghenion fy hun ☐ Gofalu am fy iechyd a lles ☐ Aros yn ddigynnwrf mewn argyfwng ☒ Sgiliau ymdopi a rheoli straen

Sut beth fyddai llwyddiant i mi yn fy marn i?

I mi mae llwyddiant yn ddibynnol ar ymdrech, credaf y rhinweddau hanfodol i lwyddiant yw dyfalbarhad, trefn a chadw ffocws. Fy mwriad yw cael profiad trawsnewidiol yn brifysgol trwy ymestyn fy sgiliau megis hyder a ffydd bersonol. Yn ychwanegol, hoffwn ddatblygu sgiliau sy'n allweddol i fod yn athrawes ragorol er enghraifft fy nghreadigrwydd, rhifedd a brwdfrydedd. Erbyn diwedd y tair blynedd hoffwn raddio gyda BA Addysg Gynradd gyda SAC i'r safon gorau posib. Bwriadaf gymryd mantais o gyfleoedd ychwanegol hefyd er enghraifft digwyddiadau cymdeithasol a chyfleoedd i gael cymwysterau ychwanegol.

Llwyddiant i mi fydd dod yn athrawes sy'n cael effaith cadarnhaol ar fy nisgyblion. Yn y dyfodol hoffwn ddatblygu fy ngyrfa ymhellach er enghraifft Athrawes Anghenion Arbennig neu Bennaeth Cyfnod Sylfaen. Ar y cyfan bydd llwyddiant i mi yn graddio, cynnig swydd ac wedi gwneud y mwyaf o fy amser yn y brifysgol.

Tasg 2- Datblygu Meddwl Beirniadol

Golygai meddwl yn feirniadol datblygu a defnyddio amrywiaeth o sgiliau a rhinweddau fel defnyddio amheuaeth er mwyn dadansoddi darn. Mae meddwl yn feirniadol yn helpu penderfynu ar ba mor gredadwy a dibynadwy yw darn wrth gwestiynu'r wybodaeth. Dylai asesu dibynadwyedd a defnyddioldeb darn dod yn flaenoriaeth wrth ddarllen a meddwl yn feirniadol. Mae modd sylwi ar negeseuon cudd wrth archwilio'n ddwfn mewn i ddarn a chael persbectif mwy manwl gywir ar y ddadl sy'n cael ei gyflwyno. Mae sylwi ar dueddiadau a phatrymau yn bwysig, gall hyn cael ei darganfod trwy ganfod ailadrodd neu debygrwydd. Un o hanfodion meddwl yn feirniadol yw cael rheswm ac ymchwili i gefnogi eich dadleuon a gallu cyflwyno'n hyderus. Sgiliau ychwanegol sy'n gysylltiedig i feddwl yn feirniadol yw perswadio, gwneud-penderfyniadau, dyfarnu, arsylwi a rhesymu. Golygai meddwl yn feirniadol bod yn ymroddgar i ddarganfod yr atebion manwl cywir. Gall hyn cynnwys rhoi eich barnau a meddyliau personol i'r ochr er mwyn deall mater yn fwy neu gasglu'r canlyniad mwyaf cywir. Ffordd arall o fod yn ymroddgar yw parhau i ail-edrych ar ddarn i sicrhau nad ydy unrhyw beth wedi cael ei goruchwyllo. Wrth gydnabod safbwyntiau awduron eraill mae'n osgoi tuedd ac ehangu ar eich gwybodaeth, ond mae rhaid ystyried pam ddaw awduron gwahanol i farnau amrywiol ar yr un topig. Gall meddylwyr beirniadol dda datgelu dadl gwan heb unrhyw wybodaeth gefndirol o'r pwnc, ond mae ymchwilio mewn i bwnc yn helpu gwneud penderfyniad mwy gwybodus am os ydy'r barnau ac esboniadau yn ddilys. Nid yw'r sgiliau yma'n datblygu dros nos mae'n cymryd ymdrech ac amser i ehangu'r sgil o feddwl yn feirniadol.

Cottrell, S. (2005). *Critical Thinking Skills: Developing Effective Analysis and Argument*. Hampshire: Palgrave Macmillan, tud.1-16.

Tasg 3- 'Fy marn i am Addysg yng Nghymru'

Ar hyn o bryd nad oes barn gwbl gadarnhaol gen i tuag at addysg yng Nghymru achos y traddodiad o fwydo gwybodaeth eang i blant yn hytrach na asesu beth allan nhw wneud gyda'r wybodaeth. Cefnoga Andreas Schleicher (Pennaeth PISA) y dadleuon yma yn erthygl 'WalesOnline', gan bwysleisio methiant Cymru i ddatblygu fel gwledydd eraill (Wightwick, 2017). Cytunaf fod angen newid strategaethau dysgu er mwyn i blant datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd modern. Dadleua Schleicher (Wightwick, 2017) bydden fwy buddiol i ddysgu llai o ffeithiau a ffocysu ar dopigau penodol mewn manylder i gadw ffocws ac archwilio dyfnder pwnc. Ond nad yw Schleicher yn nodi sut i wneud hyn, er mae'n erthygl wybodus mae'n diffygio yn fanylder. Yn fy marn i'r ffordd gorau i wneud hyn gydag oedrannau cynradd yw trwy chwarae, gweithgareddau tu allan, newid amgylchiadau dysgu'n aml a threialu gwahanol strategaethau newydd. Mae'n galw am newid yn hyfforddiant athrawon newydd a sut dylai athrawon cael ei ailhyfforddi (Wightwick, 2017). Meddyliaf dylai athrawon cael eu hailhyfforddi'n rheolaidd gan fod nifer o athrawon yn ddiysgog am ddysgu traddodiadol a chredaf fod hynny'n gadael addysg i lawr oherwydd mae angen addasu i fywyd modern. Hefyd er mwyn iddynt gael eu ail-ysbrydoli. Yn nôl Schleicher (Wightwick, 2017) mae diffyg gallu athrawon Cymru i asesu plant yn y ffordd gorau yn arwain atynt yn methu cydnabod anghenion academiaidd unigolion. Cytunaf fod rhai plant yn cael eu goruchwilio ac nad oes ffocws ar y plant a'i datblygiad personol, ond yn hytrach ar lefelau a thargedau.

Rhywbeth arall sy'n fy mhoeni am addysg Cymru yw'r ffaith mae'r cwricwlwm y debyg iawn i gwricwlwm Lloegr fel sonia amdano yn 'Llawlyfr Darpar Athrawon Cymru' (Hopwood, M. a Defis, N.). Y bwriad yw newid hyn gyda'r cwricwlwm newydd ac rwy'n falch iawn o hynny oherwydd mae rheolaeth gennym ni i addysgu Cymry'r dyfodol a chael annibyniaeth o Loegr. Er gwelwn ymdrech y llywodraeth i wella'r cwricwlwm yn 2008 gan bwysleisio sgiliau trawsgwricwlaidd meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif, (Hopwood, M. a Defis, N.) mae'n eglur nad oedd y datblygiadau yma'n ddigon pellgyrhaeddol i sicrhau dyfodol academiaidd llwyddiannus gan nad oedd ystadegau Cymru'n gystal â gweddill y DU (Hopwood, M. a Defis, N.). Er hyn mae gobaith gen i o ganlyniad i'r cwricwlwm newydd, 'Dyfodol Llwyddiannus'. Yn 2014, casglodd Donaldson (2015) a'i dîm barn gwahanol bobl o fewn addysg ar y cwricwlwm i ddeall sut i'w wella, credaf dyma un o'r datblygiadau mwyaf yn addysg Cymru oherwydd mae gwir feddwl wedi digwydd tu ôl llunio'r cwricwlwm newydd yma. Mynegodd athrawon hoffon nhw gael mwy o reolaeth o sut a beth i ddysgu, hefyd nodon nhw nad oedd dulliau asesu'n cefnogi dysgu plant a dwi'n cytuno'n gryf gyda'r

gosodiadau yma (Donaldson, 2015). Sonia'r adroddiad dylai pob athro fod yn gyfrifol am llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, gan mae'n bwysig ar gyfer datblygu'r meddwl a chryfhau dysgu (Donaldson, 2015). Hefyd dylid datblygu fframwaith cymhwysedd digidol i sefydlu dilyniant mewn dysgu plant. Bydd 'chwe Maes Dysgu a Phrofiad' (Donaldson, 2015) sef celfyddydau mynegiannol, iechyd a lles, dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, mathemateg a rhifedd, ieithydd llythrennedd a chyfathrebu. Cytunaf yn gryf iawn gyda'r holl ddatblygiadau yma, rwy'n hoff o'r ffaith nad oes gorbwysais ar bynciau craidd rhagor, oherwydd nad ydy pob plentyn yn rhagori yn y pynciau yma. Mae amrywiaeth o dalentau gan blant, felly mae angen archwilio a chanmol hyn a chredaf bydd y cwricwlwm newydd yn cynnig y cyfle hwn. Yn fy marn i mae'r cwricwlwm newydd yn paratoi plant a'u darparu gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer bywyd modern yn wahanol iawn i'r cwricwlwm blaenorol.

Cyfeirnodau

Cottrell, S. (2005). *Critical Thinking Skills: Developing Effective Analysis and Argument*. Hampshire: Palgrave Macmillan, tud.1-16.

Donaldson, Graham, P. (2015). *Successful Futures: Looking at the Curriculum and Assessment Arrangements in Wales. A summary of Professor Graham Donaldson's report*. [online] Gov.wales. Available at: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures-a-summary-of-professor-graham-donaldsons-report.pdf> [Darllenwyd 17 Hyd. 2019].

Hopwood, M. a Defis, N. (gol.) (2017) *Llawlyfr Darpar-Athrawon Cymru*. Caerfyrddin: Yr Athrofa. [llawlyfr mewnol].

Wightwick, A. (2017). *What's good and bad about Wales' schools, according to Pisa chief*. [online] walesonline. Available at: <https://www.walesonline.co.uk/news/education/whats-good-bad-wales-schools-12672826> [Cyrchwyd 15 Hyd. 2019].